Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

DV a HG Thomas
Meillionydd Mawr
Rhoshirwaun
Pwllheli
Gwynedd
LL53 8HU

**Eich cyf: GWN1190**

**Dyddiad: 27 Mehefin 2019**

Annwyl Mr Thomas,

Diolch am eich cais i ildio'ch trwydded gollwng dŵr.

Rwyf wedi atodi ffurflenni Rhannau A ac E1 ichi eu llenwi, ynghyd â'r nodiadau canllaw cysylltiedig. Os oes angen cymorth arnoch i lenwi'r ffurflenni, ffoniwch y rhif isod a gofynnwch i siarad â'ch Swyddog Amgylchedd lleol.

Gofynnwn ichi anfon eich cais yn yr amlen ragdaledig a ddarparwyd, a gallwn wedyn brosesu eich cais.

Nodwch: nes bod y broses ildio wedi'i chwblhau, byddwch yn parhau i gronni ffioedd cynhaliaeth am y flwyddyn.

Yn gywir

**Steve Bickerton**
**Cynghorydd Derbyn Trwyddedau**

Ffôn/Tel 0300 065 3000
Ebost/Email permitreceiptcentre@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Canolfan Derbyn Trwyddedau, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd. CF24 0TP
Permit Receipt Centre, Natural Resources Wales, Cambria House, 29 Newport Road, Cardiff. CF24 0TP
Gwefan/Website www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
www.naturalresourceswales.gov.uk Correspondence welcomed in Welsh and English

**Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)**

Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych chi yn cael ei phrosesu gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol ag Egwyddorion Diogelu Data'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Bydd hyn yn ein galluogi i brosesu eich cais; monitro cydymffurfiaeth ag amodau unrhyw drwydded; prosesu adnewyddiadau; a chynnal y gofrestr gyhoeddus berthnasol.

Byddwn yn prosesu'r wybodaeth yr ydych yn ei rhoi mewn perthynas â'r canlynol:

- Ymgynghori â thrydydd partïon sy'n berthnasol ac yn gyfrifol am ymateb i geisiadau ymgynghori gan Cyfoeth Naturiol Cymru i'n galluogi i brosesu eich cais

- Cynnal dadansoddiadau ystadegol a gwaith ymchwil a datblygu ar faterion amgylcheddol

- Darparu gwybodaeth cofrestr gyhoeddus ar gyfer ymholiadau

- Atal ac ymchwilio i ddiffyg cydymffurfio posibl â chyfraith amgylcheddol a chymryd unrhyw gamau dilynol

- Ymateb i geisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004

Os oes gennych unrhyw bryderon neu ymholiadau pellach, cysylltwch â: dataprotection@naturalresourceswales.gov.uk. I gael rhagor o wybodaeth ynghylch prosesu eich manylion personol, gweler ein tudalen Datganiad Preifatrwydd.

Ffôn/Tel 0300 065 3000
Ebost/Email permitreceiptcentre@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Canolfan Derbyn Trwyddedau, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd. CF24 0TP
Permit Receipt Centre, Natural Resources Wales, Cambria House, 29 Newport Road, Cardiff. CF24 0TP
Gwefan/Website www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
www.naturalresourceswales.gov.uk Correspondence welcomed in Welsh and English